



## Diweddariad TYR

Mae blwyddyn gron arall wedi mynd heibio ac mae'n amser dymuno Nadolig Llawn iawn i chi i gyd.

Diolch i chi eto am eich cefnogaeth gyson. Rydym yn cydnabod bod gwaith partneriaeth yn gofyn am ymdrech ac yn gwerthfawrogi eich ymrwymiad a'ch parodrwydd i gydweithredu



ar draws y rhanbarth.

Roedd y gyntaf o'n ffilmau a lanswyd yn Nigwyddiad Blynyddol WEFO fis Tachwedd yn tynnu sylw at rôl y

tîm ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Gallwch weld y ffilm a gweld ydych chi yn yr un derfynol a olygwyd [yma](#) ☺. Rydyn ni wedi dechrau datblygu ein hail ffilm hefyd, a fydd yn tynnu sylw at flaenoriaeth i allu cystadleuol busnesau bach a chanolig, a dylai fod yn barod ddiwedd y gwanwyn.

Wrth symud ymlaen byddwn yn gweld ymgyrch i sicrhau bod y rhanbarth yn sylweddoli mantais lawn y rhaglenni cyfredol. Rydw i hefyd yn teimlo'n hyderus y bydd y partneriaethau a'r rhwydweithiau rydyn ni wedi'u creu yn ein rhoi ni mewn sefyllfa dda iawn i gynllunio ar gyfer y dyfodol, beth bynnag fydd y tirlun cyllido.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi eto yn 2020

*Lisa, Amy, Natalie, Nicola a Jan.*

## Yn y rhifyn hwn

[Diweddariad TYR](#) - Tudalen 1

[Buddsoddiad rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit](#) - Tudalen 2

[Bwrdd Sgiliau CCR](#) - Tudalen 2

[Tasglu'r Cymoedd](#) - Tudalen 3

[Cymru'n Gweithio](#) - Tudalen 4

[Digwyddiad Blynyddol WEFO](#) - Tudalen 5

[Cynhadledd Dysgu a Gwaith](#) - Tudalen 6

[Rhwydwaith Cymorth Busnes](#) - Tudalen 7

[Banc Datblygu Cymru](#) - Tudalen 7

[Busnes Cymdeithasol Cymru](#) - Tudalennau 8-9

[Syniadau Mawr Cymru](#) - Tudalen 9

[Busnes Cymru](#) - Tudalen 10

[Cronfa Twf Busnes Cymdeithasol](#) - Tudalen 11



## Buddsoddiad rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit

Yn dilyn y [cyd-ddatganiad Gweinidogol](#) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit a Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu fframwaith buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer Cymru.

Mae'r Grŵp Llywio Buddsoddiad Rhanbarthol ar gyfer Cymru, sy'n cael ei gadeirio gan Huw Irranca-Davies AC, yn parhau i gyfarfod i gael gwybodaeth a phrofiad gan fusnesau, awdurdodau lleol, sefydliadau academiaidd, y trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus ehangach ledled Cymru. Mae'r Grŵp wedi cyfarfod sawl gwaith eleni a bydd yn cyfarfod nesaf ar 17 Rhagfyr. Mae aelodaeth, papurau a chofnodion o'r cyfarfodydd hyn ar gael [yma](#).

Yn ychwanegol at y Grŵp Llywio, mae pedwar is-grŵp, sydd wedi'u sefydlu yn ystod yr haf, wedi bod yn cyfarfod yn fisol i helpu i frw ymlaen â'r gwaith manwl sy'n ofynnol mewn meysydd penodol, gan gynnwys drafftio dogfen yr ymgynghoriad ar gyfer ei lansio yn gynnar yn ystod y flwyddyn nesaf.



Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AC, gyda swyddogion OECD mewn seminar i randdeiliaid yng Nghaerdydd

Hefyd mae prosiect dwy flynedd gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi bod ar droed ers mis Ionawr er mwyn helpu i sicrhau bod arfer gorau yn rhyngwladol a llywodraethu rhanbarthol effeithiol yn rhan o'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Daeth yr OECD ar ymweliad â Chymru ym mis Mehefin i gasglu adborth gan y Llywodraeth a rhanddeiliaid a daeth i Gymru eto rhwng 25 a 29 Tachwedd fel sail i'w waith ac i ehangu ymgysylltu. Roedd hyn yn cynnwys seminar OECD a ddaeth â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid anllywodraethol a chydweithwyr ac ymarferwyr rhyngwladol at ei gilydd i gyfnewid gwybodaeth ac arbenigedd. Bydd y gwaith yn parhau drwy gydol 2020.

## Bwrdd Sgiliau CCR

Mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) yn dod ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau; cyrff diwydiant; sefydliadau addysg uwch a phellach; darparwyr hyfforddiant; ysgolion; awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru at ei gilydd.

Lansiwyd fersiwn diweddaraf y Cynllun Sgiliau Rhanbarthol (RSP) ar 24<sup>ain</sup> Hydref ym Mhlasty Malpas Court yng Nghasnewydd. Roedd y digwyddiad yn cynnwys neges gan Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, lansio [gwefan y Bartneriaeth Sgiliau](#) ac Arsyllfa Sgiliau, astudiaethau achos, cyflwyniad i'r cynllun a'r bartneriaeth gan y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd, Cyngor Dinas Casnewydd (fel yr oedd) a Leigh Hughes, Cyfarwyddwr CSR, Bouygues Construction UK a Chadeirydd, Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau CCR a ddywedodd am y 4<sup>ydd</sup> Cynllun

Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol sydd wedi'i gyhoeddi:

*“Mae datblygiad y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau wedi cael ei arwain gan CCRSP ac mae wedi cynnwys cydweithrediad â busnesau, addysg, darparwyr hyfforddiant a Llywodraeth Cymru. Mae'n seiliedig ar Ffyniant i Bawb, y Cynllun Cyflawni Cyflogadwyedd, y Cynllun Polisi Sgiliau Prentisiaeth, y Cynllun Gweithredu Economaidd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.*

*Bydd yr Argymhellion yn y cynllun yn helpu i ddylanwadu ar ddull Llywodraeth Cymru o gyllido dysgu ôl-16 ac mae'n manylu ar sut bydd y camau gweithredu y bydd yn eu rhoi ar waith gan weithio gyda phartneriaid yn ystod y tair blynedd nesaf yn cefnogi amcanion [y Cynllun Diwydiannol ac Economaidd CCR](#) i gyflymu twf economaidd a chynhwysol yn y rhanbarth.”*

Mae'r cynllun llawn ar gael [yma](#).



## Tasglu'r Cymoedd

Mae Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi gwneud sawl cyhoeddiad pwysig gan Dasglu'r Cymoedd ers mis Medi.

Y Tasglu Gweinidogol, o'r chwith i'r dde: Yn sefyll - James Davies, Lee Waters AC, Wendy Walters, Dawn Bowden AC. Yn eistedd: Y Cynghorydd Andrew Morgan, Nicola Somerville, Josh Miles, Ruth Treharne. Yn absennol o'r llun mae Kellie Beirne.



Yn ddiweddar lansiodd gyflawni cam un y Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag. Mae £10 miliwn wedi cael ei neilltuo dros ddwy flynedd, gan gynnig grantiau i ymgeiswyr cymwys sy'n dymuno gwneud defnydd eto o eiddo gwag. Mae Rhondda Cynon Taf yn arwain y cynllun hwn ar draws ffin Tasglu'r Cymoedd a chan weithio gyda'r holl Awdurdodau Lleol yn y Tasglu i sicrhau bod pobl o bob ardal oddi mewn i'r ffin yn gallu ymgeisio. Bydd y cyllid ar gael i'r ymgeiswyr hynny sy'n bodloni'r meini prawf cartrefi gwag ac mae rhagor o wybodaeth a diweddariadau am yr Awdurdodau Lleol sydd wedi cofrestru gyda'r cynllun ar gael yma.

Ers mis Medi, mae is-grwpiau'r Tasglu wedi bod yn cyfarfod i drafod y saith blaenoriaeth allweddol ar gyfer Tasglu'r Cymoedd. Cyhoeddwyd [cynllun cyflawni](#) wedi'i ddiweddarau ar 28<sup>ain</sup> Tachwedd ac mae'r cynllun yn cynnwys manylion am yr is-grwpiau a'u camau gweithredu o'r newydd ar gyfer gweddill y Tasglu. Bydd rhagor o fanylion am y camau gweithredu hyn yn rhan o'r cynllun cyn mis Mawrth 2020. Ym mis Hydref, cyfarfu aelodau newydd y Tasglu am y tro cyntaf i drafod y themâu blaenoriaeth.

Gweithiodd y Tasglu mewn partneriaeth â

sefydliad Trafnidiaeth Cymru drwy gydol yr hydref er mwyn cyflwyno cyfres o ddigwyddiadau cymunedol ledled y Cymoedd oedd yn cynnig cyfle i gymunedau siarad am y seilwaith trafniadaeth yn eu hardal leol. Cadeiriwyd y digwyddiadau gan Aelodau Cynulliad Lleol ac roedd presenoldeb da o'r cymunedau lleol ynddynt. Mae'r materion allweddol a godwyd yn ystod y digwyddiadau wedi cael eu dadansoddi a'u trafod gan yr is-grŵp Trafnidiaeth. Mae'r grŵp yn awr wrthi'n cytuno ar gyfres o gamau gweithredu a fydd yn adeiladu ar y prosiectau peilot trafniadaeth presennol a datblygiadau seilwaith allweddol fel Metro De Cymru, i wella opsiynau trafniadaeth gyhoeddus ar draws rhanbarth y Cymoedd.

Ar y 26<sup>ain</sup> Tachwedd, gwnaeth Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ddatganiad llafar mewn Cyfarfod Llawn lle amlinellodd ei weledigaeth ar gyfer yr Economi Sylfaenol yng Nghymru, ac mae'r trawsgrifiad ar gael yma. Ym mis Hydref, cyhoeddwyd 27 o brosiectau yn y Cymoedd allan o 50 o brosiectau arbrofol ledled Cymru i dreialu gwahanol dulliau gweithredu gyda datblygiad economaidd lleol. Mae'r prosiectau peilot wedi cael hwb gwerth £4.5m drwy [gronfa her yr economi sylfaenol](#) sydd wedi'i chyllido'n rhannol drwy Dasglu'r Cymoedd.

Hefyd mae Tasglu'r Cymoedd wedi bod yn gweithio gyda Busnes Cymru i gyfarfod AC'au lleol a datblygu cynlluniau ar gyfer cymorthfeydd busnes ar draws y Cymoedd drwy gydol 2020. Bydd y cymorthfeydd busnes yn darparu cefnogaeth a chynngor lleol i fusnesau presennol ac yn cael eu teilwra'n benodol i'r cymunedau lleol.

Os hoffech chi gael gwybod mwy am waith y Tasglu, gan gynnwys y cynllun cyflawni, dilynwch ni ar [Facebook](#), [Twitter](#) ac [Instagram](#) @TalkValleys / #EinCymoeddNi neu ewch i'n [gwefan](#) ni.

## Cymru'n Gweithio

Ers 1af Tachwedd, mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi bod yn gweithredu am chwe mis.

Wedi'i lansio ar 1 Mai, mae'r gwasanaeth wedi gwneud byd o wahaniaeth i fywydau pobl eisoes. Mewn cyfnod byr o amser, rydym wedi gallu helpu mwy nag 20,000 o gwsmeriaid.

Mae Gyrfa Cymru wedi gweld cynnydd nodedig yn nifer y bobl sy'n cysylltu ar eu llinell gymorth, eu gwasanaethau sgwrsio byw a'u cyfeiriad e-bost. Mae canolfannau gyrfa Gyrfa Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n gofyn am gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae'r ymdrechion i ddarparu gwasanaethau i bobl yn eu cymunedau lleol wedi cael eu hwyluso drwy gefnogi partneriaid, sy'n golygu ein bod wedi cynyddu ein presenoldeb allgymorth mewn Canolfannau Gwaith, Hybiau a Lleoliadau eraill.

Mae digwyddiadau a gweithgareddau allgymorth yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth. Mae'r math yma o weithgarwch yn un o'r ffyrdd allweddol o weithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid a siarad yn uniongyrchol gyda chwsmeriaid. Mae'r aelodau o staff sy'n helpu i gyflwyno gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi mynychu mwy nag 80 o ddigwyddiadau ers 1af Mai. Hefyd rydym wedi gwneud cyflwyniadau mewn sawl cynhadledd a chyfarfod i randdeiliaid, gan gynnwys y cynadleddau Cymunedau ar gyfer Gwaith/+ diweddar, ac roeddem yn ddiolchgar o gael cyfle yno i gyflwyno trosolwg o wasanaeth Cymru'n Gweithio, gwella perthnasoedd lleol presennol ac edrych ar sut gallwn efelychu arferion gwaith da sy'n digwydd ledled Cymru.

Ers mis Gorffennaf, yn dilyn cyfweiliad cyfarwyddyd, gofynnwyd i bob cwsmer lenwi arolwg cwsmer, ac mae'r canfyddiadau wedi bod yn gadarnhaol iawn. O blith y rhai a arolygwyd, roedd mwy na 90% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf:


1. Eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn
2. Y byddent yn argymhell gwasanaeth Cymru'n Gweithio i eraill mewn sefyllfa debyg iddynt hwy



Chwith: Tony Daly – Rheolwr Tim Merthyr a RhCT  
Dde: Alun Lloyd – Cynghorydd Gyrfaoedd

Tynnwyd y llun yn agoriad Hwb Cymunedol Calon Las yn y Gurnos, Merthyr Tudful. Roedd Cymru'n Gweithio yn falch o fod yn rhan o ailddatblygiad y lleoliad cymunedol pwysig yma (o dan arweiniad yr awdurdod lleol) ac mae wedi noddi 'pod cyfworld', a fydd yn cael ei ddefnyddio gan bartneriaid a ni i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol. Byddwn yn darparu gwasanaethau Cymru'n Gweithio o'r lleoliad bob dydd iau.

I grynhoi, mae wedi bod yn 6 mis prysur a chynhyrchiol ac rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu ein darpariaeth o gefnogaeth i gwsmeriaid a phartneriaid.





## Digwyddiad Blynyddol WEFO

Cynhaliwyd Digwyddiad Gwybodaeth Blynyddol ESI 2014 – 2020 ar gyfer 2019 ar yr 28ain Tachwedd yng Ngwesty'r Marriot, Caerdydd.

Agorwyd y digwyddiad gan Peter Ryland, Prif Weithredwr WEFO, a roddodd drosolwg o gynnydd a datblygiadau rhaglenni 2014-2020, gan dynnu sylw at rai llwyddiannau allweddol, gan gynnwys lefel uchel y cyllid sydd wedi'i ymrwyo eisoes, a chanolbwyntio ar bwysigrwydd partneriaeth a chydweithredu nawr ac mewn unrhyw raglenni yn y dyfodol.



Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit

Prif siaradwr y digwyddiad oedd Jeremy Miles AC, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit. Roedd yn awyddus i ddathlu canlyniadau'r cyllid Ewropeaidd sydd wedi'i fuddsoddi yng Nghymru a thynnodd sylw at Gymru'n mynd yn groes i'r tueddiadau economaidd o ganlyniad i'r arian. Ers 2007, mae rhaglenni sy'n cael eu cyllido gan yr UE yng Nghymru wedi creu 50,000 o swyddi newydd a 13,500 o fusnesau newydd a

chefnogi 26,500 o fusnesau. Hefyd amlinellodd bedair blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw gyllid buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol fel:

- Lleihau anghydraddoldeb incwm ar gyfer pobl, gan ddadansoddi'r ffactorau sy'n creu anghydraddoldeb incwm a lleihau incwm defnyddiadwy a dewisol.
- Busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol, gan gynnwys rôl hanfodol arloesi ac ymchwil yn ogystal â modelau busnes amgen.
- Pontio i economi dim Carbon, gan fanteisio ar y cyfleoedd mae hyn yn eu creu yn ogystal â lleihau effeithiau negyddol.
- Cymunedau iachach a mwy cynaliadwy, gan gydnabod gwahanol heriau mewn gwahanol gymunedau a rôl ardaloedd lleol mewn adnabod blaenoriaethau yn eu lleoliadau.

Tynnwyd sylw at waith y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol a chafodd y gynulleidfa weld première y [ffilm SE RET](#) newydd yn tynnu sylw at ein rôl yn y rhanbarth. Hefyd clywodd y cynadledwyr gan OECD, a roddodd ddiweddariad ar eu prosiect i greu adroddiad ar arfer gorau mewn rheoli cyllid rhanbarthol; a Rachel Garside Jones, y Dirprwy Gyfarwyddwr newydd ar gyfer Polisi Rhanbarthol a Buddsoddi yn Llywodraeth Cymru.



Huw Irranca-Davies AC yn cadeirio'r panel Holi ac Ateb

Daeth y digwyddiad i ben gyda thrafodaeth banel fywiog a sesiwn Holi ac Ateb yn cael ei gadeirio gan Huw Irranca-Davies AC, cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan.



## Cynhadledd Dysgu a Gwaith

Roeddem yn falch iawn o gael gwahoddiad i hwyluso gweithdy yng Nghynhadledd Cyflogadwyedd a Sgiliau Cymru a gynhaliwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith (LWI). Cynhaliwyd y digwyddiad yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, gydag amrywiaeth ragorol o gyflwyniadau a gweithdai.




Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

Roedd y brif araith ysbrydoledig gan Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, yn tynnu sylw at yr angen am sicrhau bod gennym ni'r sgiliau priodol yn eu lle i addasu i'r economi sy'n newid a phwysigrwydd y partneriaethau sgiliau rhanbarthol i wynebu'r her hon. Pwysleisiodd bod rhaid i gymdeithas sifil fod yn ddewrach ac yn llai gwrthwynebus i feirniadaeth er mwyn bod yn arloesol, meithrin yr economi sylfaenol a chreu llwyddiant. Bydd arbrofi a datblygu prosiectau peilot llwyddiannus yn cael ei annog. Rhaid i gaffael lleol ganolbwyntio ar werth cymdeithasol, nid dim ond gwerth gorau. Bydd yr ymgyrch i gynyddu nifer y prentisiaethau'n parhau'n flaenoriaeth allweddol.

Roedd negeseuon eraill y diwrnod yn cynnwys sut mae prinder sgiliau'n costio £155m y flwyddyn i sefydliadau a'r angen am

weithio'n greadigol gyda busnesau i ddatblygu cyfleoedd dysgu hyblyg i gau'r bwch hwn a helpu i roi sylw i dlodi mewn gwaith. Mae cydweithredu rhyngranbarthol a chynllunio a buddsoddiadau tymor hir yn allweddol i greu rhanbarthau cadarn. Mae gwella sgiliau sylfaenol wedi cael effaith positif ar gynhyrchiant a chyfiawnder cymdeithasol ond mae angen gwaith pellach er mwyn gwella cydraddoldeb y parch i addysg alwedigaethol ac academaidd.



Huw Wilkinson a Tanya Hillman o Ysbrydoli i Weithio ac Ysbrydoli i Gyflawni.

Diolch i Huw Wilkinson a Tanya Hillman a gyflwynodd y persbectif rhanbarthol a lleol sy'n rhan o brosiectau Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio yn ystod ein gweithdy ar Gefnogi Pobl Ifanc mewn Cyflogaeth: Sut Mae Awdurdodau Lleol yn Defnyddio'r ESF yng Nghymru.

Digwyddiad difyr arall yn procio'r meddwl gan LWI – rydyn ni'n edrych ymlaen at y nesaf!



## Cefnogaeth Fusnes ERDF P2

Mae rhwydwaith Cystadleurwydd BBaCh ERDF P2 yn parhau i gyfarfod bob chwarter. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys prosiectau sydd wedi'u cyllido gan ERDF P2 ac mae aelodau tîm Datblygiad Economaidd yr Awdurdodau Lleol a chynrychiolwyr WEFO, Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cyfarfod i drafod blaenoriaethau a heriau allweddol ar gyfer y rhanbarth ac i roi gwybodaeth berthnasol ddiweddar ac allweddol i aelodau'r grŵp. Yn y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd gan Gyngor Blaenau Gwent a'i gadeirio gan Muhammad

Forouzan, cafodd y grŵp ddiweddariadau gan Fargen Ddinesig Caerdydd a thîm Cyngor Tandro Busnes Cymru. Hefyd trafododd y rhwydwaith ddiffyg gofod diwydiannol yn y rhanbarth a sut gall awdurdodau lleol gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon. Bydd cyfathrebu effeithiol gan randdeiliaid rhanbarthol am argaeledd safleoedd yn allweddol.

Bydd cyfarfod nesaf y grŵp yn cael ei gynnal yng Nghastell Caerdydd ym mis Ionawr.

Mae'r erthyglau canlynol yn arddangos gwaith llawer o'r gweithrediadau sy'n cael eu cyllido o dan ERDF P2.

## Banc Datblygu Cymru

Mae [Banc Datblygu Cymru](#) yn rhan o gasgliad o ymyriadau Busnes Cymru sy'n cael eu cyllido gan Flaenoriaeth 2 ERDF. Maent yn darparu cyllid busnes hyblyg i gwmnïau yng Nghymru, symiau o £1,000 i hyd at £5 miliwn. Hyd yma ledled De Ddwyrain Cymru, drwy Gronfa Fusnes Cymru, mae'r Banc Datblygu wedi:

- Darparu £40m o fuddsoddiad uniongyrchol
- Denu £83m o gyfraniad o'r sector preifat
- Buddsoddi mewn 105 o fusnesau
- Creu 471 o swyddi
- Diogelu 805 o swyddi pellach

### Astudiaeth Achos - ie ie Productions, Caerdydd

Benthyciad o Gronfa Fusnes Cymru drwy Fanc Datblygu Cymru.

Wedi'i lansio yn 2016 a'i rheoli gan Fanc Datblygu Cymru, mae Cronfa Fusnes Cymru yn cael ei chyllido yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Ers ei lansio, mae'r gronfa wedi cael cyllid ychwanegol ac mae ganddi £180.9 miliwn yn awr.

Mae benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti ar gael i ficro-fusnesau a busnesau canolig yng Nghymru, gyda symiau o £50,000 i hyd at £2 miliwn. Gall busnesau sy'n datblygu elwa hefyd o gyllid dilynol gan Gronfa Fusnes Cymru. Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer anghenion busnes amrywiol, gan gynnwys

llogi staff newydd. A dyma beth wnaeth y busnes creadigol ie ie Productions gyda'i fenthyciad.

Wedi gwneud sawl rhaglen ddogfen lwyddiannus, nod ie ie o Gaerdydd yw creu prosiectau arbrofol ac aml-blattform. Mae'r rhain yn cynnwys diwylliant Cymru ac yn canolbwyntio ar arwresau benywaidd o gefndiroedd amrywiol. Mae'r benthyciad wedi cael ei ddefnyddio i greu tair rôl newydd ar gyfer cynhyrchydd datblygu yn y cwmni o fenywod i gyd, gan gynnwys dwy swydd lawrydd newydd yn benodol i ddrama.

Meddai'r Rheolwr Gyfarwyddwr Catryn Ramasut: "Rydyn ni wedi ymrwymo i gynrychioli merched o flaen y camera a'r tu ôl iddo. Rydyn ni wedi gwneud penderfyniad cydwybodol i ganolbwyntio ar dalent ac arwresau benywaidd."

Bydd y swyddi newydd yn ymestyn cynigion y cwmni gyda'r nod o sicrhau mwy o gomisiynau darlledu ac aml-blattform.

*Catryn Ramasut gyda Joanna Thomas, y swyddog buddsoddi gweithredol a drefnodd y cytundeb*



## Busnes Cymdeithasol Cymru

Mae [Busnes Cymdeithasol Cymru](#), sy'n cael ei gyflwyno gan Ganolfan Gydweithredol Cymru, yn darparu cefnogaeth fusnes arbenigol i helpu gyda thwf busnesau cymdeithasol ledled Cymru. Mae busnesau cymdeithasol yn cynnwys mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd, cwmnïau cydfuddiannol a busnesau o eiddo cyflogeion. Hyd yma ledled rhanbarth y De Ddwyrain, mae'r cynllun wedi cyflawni'r canlynol:

- 181.2 o swyddi wedi'u creu
- 182 o sefydliadau wedi cael cymorth
- 94 o sefydliadau wedi cael cefnogaeth gyda chydaddoldeb ac amrywiaeth
- 97 o sefydliadau wedi cael cefnogaeth gyda datblygiad cynaliadwy

### Busnes Cymdeithasol Cymru yn lansio ei brosiect 'Dechrau Newydd'

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yn lansio gwasanaeth newydd ym mis Ionawr er mwyn rhoi cefnogaeth benodol i fentrau cymdeithasol newydd. Diolch i gyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru, mae'r gwasanaeth newydd yn gallu cynnig cefnogaeth a chynngor busnes am ddim i fentrau cymdeithasol newydd, gan eu helpu i greu sylfeini cadarn er mwyn sefydlu busnes ffyniannus a chynaliadwy.

Bydd y gwasanaeth ar gael yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Gall ei dîm o arbenigwyr gynnig cynngor un i un a chynllun mentora i helpu entrepreneuriaid cymdeithasol o'r cam syniadau i ddechrau masnachu, ymgorffori'r busnes a hyfforddi pobl.

Erbyn 2022, mae'r prosiect yn gobeithio helpu 250 o fusnesau cymdeithasol newydd yng Nghymru i sefydlu a hefyd bydd tua 200 o swyddi newydd yn cael eu creu.

Mae mwy o wybodaeth ar gael mewn briff

lansio sy'n cael ei gynnal ym Merthyr Tudful ddydd Mercher 15 Ionawr. Gallwch archebu lle am ddim yn <https://new-start-south-east-launch.eventbrite.co.uk>.

### Astudiaeth Achos – Cwmni addysg yn troi'n gydweithfa i ddatblygu'r busnes

Pan sylweddolodd cyfarwyddwyr asiantaeth addysgu Equity Solutions Ltd bod eu model cyfreithiol yn eu dal yn ôl, aethant ati i ofyn am gymorth Busnes Cymdeithasol Cymru i drawsnewid yn gydweithfa. Roedd hyn yn eu galluogi i ddiogelu gwerthoedd cydweithredol y cwmni a chael cyfleoedd tendro newydd.

Mae Equity Solutions Ltd yn asiantaeth addysg sy'n cyflenwi athrawon a staff cymorth i ysgolion. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau pwrpasol fel tiwtora o ansawdd uchel i ddysgwyr anodd eu cyrraedd, heriol neu agored i niwed.



Michael O'Neill, Lianne Mason a Nerys Owen

Roedd y tri Chyfarwyddwr, Michael O'Neill, Lianne Mason a Nerys Owen, eisiau sicrhau tegwch a chydaddoldeb yn y sector addysg a gwella cyrhaeddiad pawb. Roeddent wedi ymrwmo i dalu cyflog teg i'w staff, gan godi ffioedd priodol ar ysgolion partner a sicrhau bod y gwasanaethau'n cynnig ansawdd ar draul elw.

Yn wreiddiol, roeddent wedi sefydlu'r busnes fel cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau, ond roedd y model cyfreithiol hwn yn eu hatal rhag tendro am gontractau awdurdodau lleol.

Gan sylweddoli bod rhaid iddynt ddod o hyd i strwythur newydd, ond yn awyddus i ymgorffori'r egwyddorion cymdeithasol oedd wedi eu cymell i sefydlu'r busnes i ddechrau, aethant i ofyn am...

**Parhad ar y dudalen 9**



**Parhad o'r dudalen 8** ...gefnoagaeth Busnes Cymdeithasol Cymru.

Cafodd y Cyfarwyddwyr gyngor gan gynghorydd BCC, Tricia Morgan, ar fodolau cyfreithiol amrywiol addas i'w hanghenion. Penderfynwyd dod yn gydweithfa gyda strwythur cyfreithiol cwmni cyfyngedig trwy warant.

Roedd mwy o gefnogaeth ar gael gan BCC. Arweiniodd cyngor gan arbenigwr marchnata at lunio cynllun marchnata. Bu cymorth gan yr adran Adnoddau Dynol i adolygu a diweddarau contractau cyflogaeth, disgrifiadau swyddi a pholisïau Adnoddau Dynol, ac i ddatblygu llawlyfr staff, o help i'r sefydliad gryfhau ei

sefyllfa fel cyflogwr teg a moesegol. Hefyd, cafwyd cefnogaeth i'r cwmni ddatblygu polisi amgylcheddol, cynllun gweithredu ac eco-god.

Drwy ddod yn gydweithfa, mae Equity Solutions wedi ymrwmo i gynnal egwyddorion hunan-gymorth, hunan-gyfrifoldeb, democratiaeth, cydraddoldeb, tegwch ac undod. Cadarnhaodd ei hymrwymiad i fod yn asiantaeth foesegol sy'n talu cyflogau teg ac yn annog cydweithwyr i deimlo'n rhan o dîm.

Hefyd sicrhodd contract newydd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

## Syniadau Mawr Cymru

Mae Syniadau Mawr Cymru yn ysbrydoli pobl ifanc i ddatblygu eu dyheadau menter ac i'w helpu i wneud penderfyniadau am sefydlu busnesau. Ers mis Ionawr 2016, mae'r rhwydwaith o fodolau rôl entrepreneuriaidd wedi cyfarfod bellach â 91,564 o bobl ifanc mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a grwpiau ieuenctid ledled rhanbarth De Ddwyrain Cymru.

Gallwch glywed gan entrepreneuriaid eraill yn awr drwy ein **Podlediadau** newydd: Spotify yma: <http://ow.ly/VGpX50xdCbF...> iTunes yma: <http://ow.ly/EeZK50xdCe3> YouTube yma: <http://bit.ly/2pu3PnT>

I ddathlu busnesau newydd graddedigion yng Nghymru, yn ddiweddar lansiodd Prifysgolion Cymru y [fideo](#) hyrwyddo yma'n dangos y graddedigion ifanc niferus o'n prifysgolion ni

sydd wedi llwyddo mewn busnes.

I gloi'r Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang ar 23/24<sup>ain</sup> Tachwedd, cynhaliodd Syniadau Mawr Cymru brofiad **Bwtcamp i Fusnes** yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd. Rhannodd 38 o gyfranogwyr llwyddiannus y profiad dysgu dwys yma o dan arweiniad entrepreneuriaid, i ddatblygu eu syniadau a chyfarfod entrepreneuriaid ifanc tebyg i'w helpu i ddatblygu eu busnes.

Galw ar bob ysgol gynradd: Mae cystadleuaeth **Y Criw Mentrus** yn helpu i ddatblygu gwaith tîm, uchelgais, menter a sgiliau creadigrwydd. Mae mwy o fanylion am y gystadleuaeth a'r adnoddau ar gyfer ysgolion ar gael [yma](#). Y dyddiad cau fydd yr 11eg o Fai 2020.

Mae Syniadau Mawr Cymru yn cael ei gyllido yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Cyfranogwyr 'Bwtcamp i Fusnes' ym Mae Caerdydd



## Busnes Cymru

Mae Busnes Cymru yn parhau i annog dechrau a datblygu cynaliadwy ar fusnesau yng Nghymru



91,564 Young People have been Inspired by role Models



14,039 Individuals and Businesses have been advised



Increase in Employment figure is 7,984



We have supported 751 young People Supported to develop their business ideas



1,820 New enterprises have been created



The total investment in enterprise is 117.3 million



We have 201 role models covering the South East Region



Increase in exports is now at 98.9 million

*Y canlyniadau hyd yma o becynnau cefnogi Busnes Cymru yn Rhanbarth y De Ddwyrain*

Wrth i'r sector hunangyflogaeth yng Nghymru barhau i ddarparu swyddi a buddsoddi yn yr economi leol, mae prif wasanaeth cefnogi busnesau Llywodraeth Cymru wedi cael chwarter llwyddiannus arall.

Gyda mwy na 3,000 o fusnesau newydd wedi'u lansio mewn llai na 4 blynedd ac 13 o swyddi ar gyfartaledd wedi'u creu bob dydd, mae Busnes Cymru, sy'n cael ei gyllido gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, yn helpu entrepreneuriaid newydd i gymryd y camau cyntaf at hunangyflogaeth drwy gyfrwng cyfres o weithdai a chefnogaeth ymgynghorol ac arbenigol un i un.

Mae ein tîm hynod brofiadol yn rhoi sylw i bob agwedd ar ddechrau busnes, gan gynnwys cynllunio busnes, ymchwil, canfod cyllid, deddfau a rheoliadau, marchnata, treth, strwythur busnes, statws cyfreithiol,

yswiriant a chyflogi staff.

Rydym yn cyflwyno gweithdai rheolaidd ar ddechrau busnes i helpu entrepreneuriaid i asesu eu sgiliau a magu hyder a dealltwriaeth ymarferol o beth sy'n angenrheidiol i ddechrau busnes.

Edrychwch ar yr astudiaeth achos newydd am sut mae cefnogaeth Busnes Cymru i fusnesau newydd wedi helpu yn y Fenni [yma](#).

*Os ydych chi eisiau cael gwybod mwy am gefnogaeth Busnes Cymru i ddechrau busnes yn Ne Ddwyrain Cymru, ffoniwch 01656 868500 neu anfonwch e-bost i [southwales@businesswales.org.uk](mailto:southwales@businesswales.org.uk).*

*Mae Busnes Cymru, sy'n cael ei gyllido drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, yn cefnogi twf cynaliadwy mentrau bach a chanolig ledled y wlad drwy gynnig mynediad at wybodaeth, cyfarwyddyd a chefnogaeth i fusnesau.*





## Cronfa Twf Busnes Cymdeithasol

### Cyllid yr UE gan Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru

Mae'r defnydd arloesol o gyllid ERDF gan Fuddsoddiad Cymdeithasol Cymru yn WCVA wrth gefnogi'r trydydd sector yn llwyddiant aruthrol. Mae £2.3m wedi'i gymeradwyo eisoes ac wedi'i roi ar waith mewn cymunedau, gan helpu i drawsnewid bywydau ledled Cymru

Mae'r Gronfa Twf Busnes Cymdeithasol yn darparu cyfuniad o grantiau a chymorth i'w ad-dalu yn gysylltiedig â chreu swyddi, gyda chymhelliant ychwanegol o lai i'w ad-dalu os bydd mwy na'r nifer a gynlluniwyd o swyddi'n cael eu creu. Fel y dywedodd Alun Jones, Pennaeth Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru 'Mae'n gwneud beth mae'n ei ddweud ac mae

amrywiaeth eang o fusnesau cymdeithasol yn defnyddio'r arian i gefnogi eu dyheadau twf. Rydyn ni wedi cyllido canolfan achub cŵn, iot ar y môr, 2 ganolfan chwarae i blant, 2 gynllun Gofal a Thrwsio ac amrywiaeth lawn o fentrau eraill. Mae wedi bod yn ddiddorol iawn gweld beth sydd wedi dod.'

'Rydyn ni wedi cael cymaint o lwyddiant fel bod y cyllid ar gyfer Dwyrain Cymru wedi mynd i gyd bron eisoes. Rydyn ni'n argymhell bod pobl yn ardal Dwyrain Cymru yn symud yn gyflym i'n ffonio ni tra mae arian ar ôl o hyd. Am nawr, mae'r arian ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn iawn, ond rydyn ni wastad yn cadw llygad am brosiectau twf newydd a chyffrous.'

Gellir cysylltu â thîm Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru ar 0300 111 0124 neu [sic@wcva.cymru](mailto:sic@wcva.cymru).



Staff a gwirfoddolwyr Hope Rescue gyda chŵn wedi'u hachub. Cafodd agoriad eu Canolfan Achub newydd benodol gymorth ariannol o Gronfa Twf Busnes Cymdeithasol Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru a Charity Bank

